Syniadau A.G.

Tymor yr Hydref 2004 Pris £1.00

PERERINDOD

Frances Jenkins,Ysgol Gymunedol Roch, Sir Benfro

Sefwch ar y groesffordd ac edrychwch
Gofynnwch am yr hen lwybrau
A pha un yw'r ffordd orau.

Jeremiah 6:16

Yn draddodiadol, pererin yw rhywun sydd yn mynd ar daith i le crefyddol arbennig. Pan fo pererin yn ymweld â lle arbennig, mae yn gobeithio dod yn agosach at Dduw, profi presenoldeb Duw mewn ffordd arbennig iawn. Gelwir y daith yma yn 'bererindod'. Mae'n ffurf o addoli sydd yn boblogaidd iawn.

Roedd llawer iawn o bobl yn mynd ar bererindodau yn ystod y Canol Oesoedd, oherwydd credent fod diwedd y byd ar ddod yn fuan iawn. Cyn cychwyn ar ei bererindod, byddai y pererin yn rhoi trefn ar ei faterion busnes i gyd, gan wneud yn siwr y byddai ei deulu yn iawn, a'i fod wedi gwneud ewyllys.

Bob blwyddyn, mae miliynau o bobl o wahanol grefyddau yn mynd ar bererindodau - y tlawd a'r cyfoethog, gwÿr a gwragedd, hen ac ifanc. Bydd rhai pererinion yn iach; ond i rai, taith o obaith yw'r bererindod. Bydd y rhai sydd yn wael weithiau yn teithio i fan cysegredig yn y gobaith o gael adferiad iechyd (Lourdes ee.) yn arbennig felly, os ydynt yn dioddef o afiechyd na all y meddyg ei wella. Ers talwm, os oedd rhywun yn rhy wael i fynd ar bererindod ei hun, byddai yn gofyn i ffrind i fynd ar ei ran. Roedd rhai pobl, hyd yn oed, (fe'u gelwid yn 'Palmers') yn treulio eu bywydau yn mynd ar bererindodau ar ran y cleifion na fedrent fynd eu hunain. Bydd rhai pobl sydd wedi cael gwellhad o afiechyd neu salwch, yn mynd er mwyn diolch i Dduw am eu gwella.

Mae'r stori yma yn cyflwyno y cymeriad Rhidian, offeiriad aeth ar bererindod i Dÿ Ddewi, lle cymerodd beth o'r olew oedd yn llosgi yng nghysegr y sant. Gellir defnyddio yr uned waith yma fel rhan o waith yn dathlu y canlynol:
Yr Adfent neu Nadolig (gwneud Christingles), i ddangos pwysigrwydd goleuni i'r Cristnogion.
Diwali (yr Hindþ / Gþyl Goleuni y Sikiaid), a Hanukah (Gþyl Goleuni yr Iddewon)
Gallai disgyblion archwilio i arwyddocâd fflam y Gemau Olympaidd, gan edrych ar ei thaith i wlad Groeg, hefyd y fflam sydd yn parhau yn olau ar fedd Kennedy yn Amgueddfa yr Holocost yn Washington.

Rhidian a'r Goleuni

Rhan 1



Dair canrif ar ddeg yn ôl, roedd offeiriad o'r enw Rhidian yn byw, ac yn gofalu am eglwys fechan ar Benrhyn Gþyr. Fel pob pererin, roedd am fynd â rhywbeth yn ôl gydag ef o Dŷ Ddewi - rhywbeth fyddai yn ei atgoffa o'i bererindod, ac yn dod âg ef yn agosach at Dduw. Aeth ar bererindod - pererindod i Dŷ Ddewi.

Roedd ei daith yn hir ac yn anodd. Wedi i'r Rhufeiniaid adael Prydain, roedd y ffyrdd yn llawn chwyn, a bu'n rhaid iddo deithio ar lwybrau garw. Foddbynnag, roedd yn benderfynol o ymweld â'r lle yr adeiladodd Dewi Sant ei fynachlog, a'r lle y cafodd ei gladdu. Fel sawl Cristion arall, credai y byddai, petai yn mynd i'r fangre gysegredig yma, yn teimlo yn agosach at Dduw ac y byddai yn derbyn bendith arbennig. Pan gyrhaeddodd Rhidian Dŷ Ddewi, gweddïodd ar Dduw ac offrymodd rodd i'r fynachlog.



Fel pob pererin, roedd am fynd â rhywbeth yn ôl gydag ef o Dŷ Ddewi - rhywbeth fyddai yn ei atgoffa o'i bererindod, ac yn dod âg ef yn agosach at Dduw. Felly, cyn gadael, cymerodd y lamp fechan oedd gydag ef, a'i goleuo gyda'r fflam oedd yn llosgi ar gysegr Dewi. Bu'n edrych ar ôl y fflam yn ofalus ar hyd ei ffordd gartref, gan ei gwarchod rhag y gwynt oedd yn chwythu drwy'r coed.



Roedd wedi blino yn arw ar ôl ei daith - arhosodd y noson yn nhŷ ffrind iddo o'r enw Gwynor. Croesawodd Gwynor Rhidian i'w dŷ. Ar fin nos oer a stormus, eisteddai'r ddau i fwyta pryd o fwyd syml gyda'i gilydd ac i sgwrsio am daith fythgofiadwy Rhidian i Dŷ Ddewi.



Tra roeddynt yn sgwrsio, sylwodd Gwynor fod Rhidian yn edrych yn aml ar y lamp. Roedd yn methu deall pam fod Rhidian yn gwastraffu olew gwerthfawr. Roedd goleuni yn y tŷ yn barod! Felly pam na fyddai Rhidian yn diffodd y lamp?

Gofynnodd Gwynor i Rhidian am hyn. - yr ateb oedd, ei fod yn cadw'r fflam i losgi am ei bod yn fflam sanctaidd - roedd wedi dod o gysegr Dewi Sant - roedd o am fynd â hi yn ôl i'w eglwys ei hun, lle y medrai pawb weld ei goleuni.

Meddyliodd Gwynor fod hyn yn syniad gwych - felly gofynnodd i Rhidian a gawsai ef rannu'r fflam, fel y medrai yntau oleuo ei eglwys ef gyda'r fflam sanctaidd o gysegr Dewi Sant. Am funud, roedd Rhidian yn ansicr.

Rhan 2



Ddylai o roi i ffwrdd ychydig o'r goleuni? Roedd wedi teithio milltiroedd drwy ddyffrynnoedd ac ar draws afonnydd i gyrraedd Tŷ Ddewi ac yn ôl ! Roedd y fflam yn werthfawr iawn iddo.

Ond foddbynnag, roedd hefyd yn Gristion. Gwyddai y byddai Gwynor yn trysori'r fflam, ynghyd â'r bobl yn ei eglwys. Felly cytunodd i rannu'r fflam sanctaidd gyda'i ffrind. Teimlodd rhyw gynhesrwydd y tu mewn iddo wrth wneud hyn. Cyn mynd i gysgu y noson honno, treuliodd y ddau offeiriad amser yn gweddïo.



Y bore wedyn, cychwynnodd Rhidian ar y rhan olaf o'i daith adref. Nid oedd ganddo ffordd bell ond roedd y tywydd yn gwaethygu yn gyflym. Yn sydyn, sylweddolodd fod popeth o'i amgylch yn wyn - eira trwm yn cael ei chwipio gan wynt cryf o'r môr. Fel roedd ei lamp yn chwifio yn y gwynt cryf, diffoddodd y fflam

Rhan 3



Tra roedd Rhidian yn sefyll yno yn ddigalon dros ben, a'r gwynt yn chwyrlio o'i gwmpas, cofiodd ei fod wedi rhannu y goleuni gyda'i ffrind Gwynor. Gwenodd yn dawel - doedd popeth ddim ar ben !

Yn sydyn trodd yn ôl tuag at dŷ Gwynor. Wrth iddo gerdded trwy'r eira trwchus, cofiodd ei fod bron wedi cadw y goleuni iddo'i hun. Roedd mor falch rwan ei fod wedi penderfynnu rhannu y fflam.

Wedi iddo gyrraedd tŷ Gwynor, roedd ei ffrind yn hapus iawn i rannu y goleuni o'i lamp ef gyda Rhidian. Oherwydd fod Rhidian wedi rhannu y goleuni yn y lle cyntaf, gallai Gwynor rwan dalu yn ôl iddo am ei garedigrwydd, trwy rannu ei oleuni ef. Sibrydodd Rhidian wrtho'i hun: 'Ni ni fyddwn fyth wedi medru derbyn y goleuni yma onibai fy mod wedi ei rannu yn y lle cyntaf.'

Diolch i Cathy Morton am y darluniau.

Syniadau am wersi yn seiliedig ar stori Rhidian a'r Goleuni:

Amcanion:

Cydnabod fod credoau crefyddol rhai pobl yn dylanwadu ar eu gweithredoedd a'u hymddygiad
Galluogi y disgyblion i fod yn ymwybodol fod y ffordd maent yn ymddwyn yn effeithio ar y ffordd mae eraill yn eu trin.
Archwilio y syniadau am bwysigrwydd symbolaeth (gan gynnwys gwahanol gredoau).
Mae'r gwaith yma ar ffurff tair gwers (ond gellir eu haddasu fel bo'r angen).

Gwers 1

Creu awyrgylch addas i ddweud stori. Trafod pwysigrydd goleuni gyda'r plant. Pam fod arnom angen goleuni ? Darllen a thrafod Rhan 1 o'r stori.
Syniadau i ganolbwyntio arnynt:
Mae gan Rhidian broblem - mae ei ffrind am iddo rannu y fflam sanctaidd. Ddylai o wneud hyn a'i peidio ? Beth dybiwch chi fydd Rhidian yn ei wneud ?
Eglurwch eich ateb.
Trafodwch broblemau mae'r disgyblion wedi gorfod eu hwynebu. Sut oeddynt wedi delio â'r rhain ? Pwy oedd yna i'w helpu?

Gwers 2

Mynd dros y stori hyd yma. Darllen a thrafod Rhan 2 o'r stori.
Mae Rhidian wedi penderfynnu rhannu y fflam sanctaidd gyda'i ffrind. Ydi rhannu yn bwysig ? Pam ?
Rhoi cyfle i'r disgyblion i drafod beth sydd yn werthfawr iddynt hwy.
Sut fyddent yn teimlo petaent yn colli rhywbeth sydd yn werthfawr iddynt ?

Gweddiodd y ddau offeiriad ar Dduw. Gofyn i'r disgyblion i ysgrifennu yr weddi fyddai'r ddau offeiriad, yn eu tyb hwy, wedi ei gweddio ar Dduw, neu ddeialog rhwng y ddau offeiriad. (Gellir addasu y syniad yma ar gyfer chwarae rôl i ddisgyblion iau).

Gwers 3

Mynd dros y stori hyd yma. Darllen a thrafod Rhan 3 o'r stori.
Pam fod Rhidian mor awyddus i fynd â'r fflam yn ôl i'w eglwys ei hun, a'i chadw i losgi ?
Disgrifiodd Iesu ei hun unwaith fel 'Goleuni y Byd ' (Mathew 5:14-16). Pam dybiwch chi, y dewisodd ddisgrifio ei hun yn y modd yma ? Sut fyddech chi yn disgrifio eich hunan ?
Edrychwch ar, ac archwiliwch ddarlun Holman Hunt - 'Goleuni y Byd'.
Dyluniwch gerdyn yn adlewyrchu goleuni cysegr Dewi Sant, y goleuni rannodd Rhidian gyda'i ffrind.
Dychmygwch mai chi yw Rhidian. Ysgrifennwch lythyr ar ffrind yn disgrifio eich taith. Cofiwch gynnwys eich teimladau o lawenydd wrth dderbyn y goleuni, y tristwch wrth i chi ei golli, a'r gobaith wedyn wrth sylweddoli y gallwch rannu y goleuni roddasoch i Gwynor, a heddwch yr Eglwys gyda'r goleuni yn tywynnu yn ddisglair.

ADNODDAU MAGC *(Mudiad Addysg Gristnogol Cymru)*
Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o *'Syniadau AG'* ar gael.
CYHOEDDIADAU NEWYDD: Cynradd - *Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn*
Iesu - Ei bwysigrwydd i gredinwyr;
Mannau Arbennig – Eu harwyddocad i gredinwyr
Uwchradd – *Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol;*
What the Welsh Churches say on moral and social issues
Cyffredinol*: More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)
Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr
Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX
(Tel/Ffacs: 01654-761697) e bost: Sali@patshyn.fsnet.co.uk
© MAGC 2004